# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 18 Medi 2000

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dangosir Rhifau Gwreiddiol y Cwestiynau mewn cromfachau)**

Gofyn i Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff hi roi manylion o ba Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yng Nghymru sydd â pholisi o rwystro pobl sy'n datgan eu bod yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth rhag cael eu penodi a pha rai nad ydynt yn gweithredu'r polisi hwn, ac a oes bwriad ganddi i ystyried cael bob un ohonynt i fabwysiadu polisi unffurf? (WAQ 6756)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru**); A yw'r polisi presennol ynghylch cyflogaeth/ymgynghoriaeth o fewn Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yng Nghymru yn rhwystro pobl sy'n datgan eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol rhag cael eu penodi ac a wnaiff hi amlinellu'r rhesymau dros y polisi hwn? (WAQ 6757)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael yn ddiweddar â'r cwmnïau ffôn symudol ynghylch eu polisi ar leoli mastiau ffonau symudol yng Nghymru, ac a wnaiff wneud datganiad? (WAQ 6758)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o gyllid sydd wedi cael ei neilltuo ar gyfer gwneud gwaith ymchwil i adfer tir sydd wedi cael ei lygru, a sawl hectar o dir o'r fath sydd wedi cael ei adfer, ym mhob un o'r 10 mlynedd diwethaf? (WAQ 6762)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gronfeydd sydd wedi eu neilltuo i alluogi Cynghorau Cymru i leihau’r llwyth o waith adnewyddu tai sydd wedi cronni ar gyfer bob blwyddyn ers 1997? (WAQ 6759)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru**); Pa gronfeydd sydd wedi cael eu neilltuo i Gynghorau Sir yng Nghymru ar gyfer (a) diogelwch plant, a (b) llwybrau diogel i’r ysgol, ar gyfer bob blwyddyn ers 1997? (WAQ 6763)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff restru’r cylchlythyrau sydd wedi cael eu hanfon gan ei Hadran i (a) ysgolion cynradd, a (b) ysgolion uwchradd yn ystod y llynedd, a faint o dudalennau oedd ymhob dogfen? (WAQ 6760)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw canran y disgyblion yng Nghymru sydd mewn dosbarthiadau o 31 neu fwy yn (a) Cyfnod Allweddol 1, (b) Cyfnod Allweddol 2, (c) Cyfnod Allweddol 3, (d) Cyfnod Allweddol 4, ac (e) yn y chweched dosbarth ? (WAQ 6761)